

**Cofnodion o Cyfarfod Cyngor Cymuned Llangeitho a gynhelir ar nos Lun**  
**12 Ebrill 2021 arlein, trwy zoom am 8.30 o'r gloch**  
**Minutes of Llangeitho Community Council Meeting held on Monday,**  
**12 April 2021, online through Zoom at 8.30pm**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Cydymdeimlwyd efo'r Clerc yn ei phrofedigaeth diweddar.

**Presennol/Present**

Cyng Daniel Thomas (Gadair/Chair), Gwenfair Owen, Beryl Evans, Gwilym Evans, Emyr Jones, Eirian Jones, Myrddin James, Rhian Turner a Cyng/Cllr Rhodri Evans

**Ymddiheuriadau/Apologies** – Cyng/Cllr John Evans & Cyng/Cllr Paul Rooke

**Datgan Diddordeb/Declaration of Interest** – Neb / No one

**Adroddiad yr Heddlu / Police Report**

Yn absenoldeb yr heddlu, cylchredwyd adroddiad ar bapur i'r Cynghorwyr.

**Cofnodion y cyfarfod diwethaf/Minutes of previous meeting**

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf ar gynnig Cyng Gwenfair Owen ac eiliwyd gan Cyng Emyr Jones

**Materion yn codi o'r cofnodion/Matters arising from minutes**

- Derbyniwyd cadarnhad oddi wrth CADW fod yna arian ychwanegol i gael tuag at y costau i'r gwaith oddi amgylch y cofgolofn yn Llangeitho, cyfanswm a dderbynnir yn wreiddiol oedd £3943 wedi'u newid i fynd lan i £4313. Crwbin Quarries wedi cael caniatad i gario ymlaen a'r gwaith angenrheidiol. Derbyniwyd rhif ffôn symudol Gareth Lewis i fynd i asesu'r goeden ywen ar y cylchfan.
- Arolwg o'r gwaith sydd angen ei wneud i drwsio'r bont rhwng Parcrhydderch a Capel Betws Leucu wedi'u wneud, aros am ymweliad o'r 'Structural Engineer' i ymweld a'r safle.

**Gohebiaeth/Correspondence**

- Llythyron o ddiolch am y rhodd ariannol wedi'u dderbyn oddiwrth Eglwys Llanbadarn Odwyn, Capel Llwynpiod, Capel Gwynfil, Eglwys Llangeitho a Chapel Penuwch.
- Llythyr wedi'u dderbyn oddi wrth Lisa Farmer, Cyfarwyddwr, Royal British Legion Industries yn amgau manylion am diwrnod VE ar 8fed o Fai 2021 – dim gweithrediad.

**Cyfrifon/Accounts**

- |  |                            |
|--|----------------------------|
| • Cyflog y clerc (misoedd Chwefror/Mawrth) £223.34 | • Brian Bulman £250        |
| • Zoom £14.39 (24.03.2021)                         | • Dwr Cymru £15.53         |
| • Aelodaeth Un Llais Cymru £130                    | • Aswiriant Zurich £681.69 |

Cytunwyd ar gynnig Cyng Daniel Thomas ac eiliwyd gan Cyng Beryl Evans i dalu'r uchod.

**Cyngor Sir Ceredigion County Council**

- Cytunwyd i gefnogi'r ceisiadau cynllunio isod:
- G Evans, Coedmawr Uchaf, Llanio Road – Erection of an agri storage building.
- Amanda Cross, Hollygrove, Llangeitho – Proposed parking facilities.

**Un Llais Cymru/One Voice Wales**

Dim i'w adrodd.

**Unrhyw Fater Arall/Any Other Business**

- Soniwyd bod yna dyllau yn y ffordd ar bwys garej James, Llangeitho.
- Car wedi'u barcio tu allan i Capel Gwynfil ers nifer o wythnosau, angen cysylltu a'r heddlu i'w symud, rhif M1G 9138 Kia Glas.
- Soniwyd bod angen symud y goeden Nadolig o'r Parc yn Llangeitho, Clerc i gysylltu a pwyllgor yr Ysgol Gynradd.

**Dyddiad a Lleoliad y cyfarfod nesaf/Date & location of next meeting**

Cynhelir y Cyfarfod Blynnyddol ar nos Lun 10fed o Fai 2021 am 8 o'r gloch trwy Zoom.